**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Nos Fawrth 27 Tachwedd 2018, 18.00-19.30
Tuesday 27 November 2018, 18.00-19.30
Lleoliad: Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel
Conference Room C, Tŷ Hywel

| Eitem |
|---|
| **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>Heather Stephens, Carol Carpenter, Llyr Griffiths AC, Dr Huw Jenkins, Dr Geraint Preest. |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br><br>a. Trafod y cofnodion a'u cymeradwyo<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion.<br><br>b. Materion sy'n codi<br><br>Roedd yr holl faterion sy'n codi wedi'u cynnwys yn yr agenda. |
| **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)**<br><br>a. Diweddariad (Tristan Humphreys)<br><br>Rhoddodd Tristan Humphreys (TH) ddiweddariad ar gynnydd ynghylch Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018 a'r canllawiau cysylltiedig. Bydd ymgynghoriad ar y cod ymarfer drafft yn cael ei lansio ddechrau mis Rhagfyr gyda dyddiad cau ar 22 Mawrth. Mae Coeliac UK yn cadeirio'r Care in Schools Alliance (CISA) a bydd yn cydlynu ymateb ar y cyd gan CISA. Y cynllun presennol yw i'r cod gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2019. Mae gan CISA rai pryderon ynghylch y drafft arfaethedig a byddai'n annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes hwn i ymgysylltu â'r ymgynghoriad naill ai drwy'r grŵp neu yn unigol.<br><br>CAM GWEITHREDU: Cyflwyno ymgynghoriad ar ran CISA ac adrodd yn ôl i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf |
| **Presgripsiynau**<br><br>a. Diweddariad ar gynnydd grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a rheoliadau newydd (NMG)<br><br>Atgoffodd Norma McGough (NMG) y grŵp o benderfyniad ymgynghori yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) o gynharach eleni i gynnal cefnogaeth ar gyfer rhagnodi bwyd heb glwten yn Lloegr ond cyfyngir hyn i gymysgedd bara a blawd. Ers hynny mae ymgynghori wedi bod ar y rheoliadau canlyniadol ar gyfer Lloegr ac o 4 Rhagfyr bydd y tariff cyffuriau diwygiedig ar gyfer Lloegr yn dod i rym. Mae hyn yn dilyn proses gynhwysfawr a theimlwyd y byddai croeso mawr i resymoli'r rhestr, os nad y gostyngiad canlyniadol yn sgil hynny. Bydd GIG Lloegr yn cysylltu â Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCG) ynglŷn â'r loteri cod post canfyddedig ar gyfer darparu bwyd heb glwten yn Lloegr, ac yn hyrwyddo'r canllawiau newydd. Ar hyn o bryd mae un rhan o dair o'r Grwpiau Comisiynu Clinigol wedi dileu rhagnodi bwyd heb glwten yn llwyr, mae un rhan o dair wedi cyfyngu, ac mae traean yn dal i ddefnyddio Canllawiau |

Rhagnodi Cenedlaethol. Bydd hyn yn newid o ganlyniad i'r rheoliadau newydd. Yn anffodus, mae GIG Lloegr heddiw (27/11/18) wedi cyflwyno datganiad i'r wasg sy'n drysu ac yn cyfuno materion sy'n ymwneud â nwyddau y gellir eu rhagnodi a chynhyrchion heb glwten, yn ogystal â chyfeirio at gynhyrchion megis toesenni a phitsas nad ydynt erioed wedi bod ar gael ar bresgripsiwn. Nodwyd hyn gan y Daily Mail a bu'n rhaid i'r elusen egluro'r sefyllfa.

Mae'r Adran Iechyd hefyd yn edrych eto ar nifer yr unedau a argymhellir fesul claf o ystyried y cyfyngiad i gymysgedd bara a blawd yn unig; nid yw'n ymddangos yn briodol bellach i gyfuno rhagnodi rhan o'r diet gyda chyfanswm yr unedau sydd eu hangen. Mae argymhellion a chanllawiau eraill ar gael eisoes gan PrescQIPP, y corff polisi yn Lloegr sy'n argymell llai o unedau. Mynegodd Ian Severn bryderon ynghylch y tebygolrwydd y byddai Grwpiau Comisiynu Clinigol yn gwrando ar gyngor y llywodraeth ganolog o'i brofiad fel Trefnydd Grwpiau Lleol yn Lloegr.

Mae Coeliac UK yn edrych yn fanwl ar y goblygiadau i'r cenhedloedd datganoledig gan nad yw'r rheoliadau hyn yn berthnasol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond eto mae pryder y gall fod sgil effeithiau heb eu rhagweld yn y cenhedloedd hyn. Er enghraifft, mae rhestr y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol (ACBS) yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y gwledydd datganoledig, ond eto mae'r fersiwn a ddiweddarwyd yn ddiweddar wedi cael ei symleiddio i adlewyrchu newidiadau yn Lloegr. Mae AWPAG (Grŵp Cynghori Fferyllol Cymru Gyfan) yn parhau fel yr awdurdod ar ragnodi yng Nghymru, ond wrth symud ymlaen mae'n bosibl y bydd un o'r heriau posibl yn ymwneud ag adolygu'r cynhyrchion heb glwten hynny sy'n dal i fod ar gael ar bresgripsiwn yng Nghymru ond nad ydynt bellach yn rhan o'r gwaith monitro parhaus neu reoleiddio gan y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol. Awgrymodd Alison Jones (AJ) fod angen deall yn well o bosibl yr hyn y mae rheoliad y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol yn ei olygu a dylem fod yn edrych ar ddull arall.

Codwyd pryder eilaidd gan fod y cenedlaethau datganoledig yn cynrychioli rhan fechan o farchnad bresgripsiynau'r DU, y byddai llai o gymhelliant masnachol gan gwmnïau i gynnal a datblygu cynhyrchion nad ydynt wedi'u cynnwys ar restr y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol, gan gyfyngu ar argaeledd cynhyrchion mewn modd anuniongyrchol. Felly, gallai hyn arwain at restr nid yn unig ddi-newid, ond a allai fod yn lleihau. Yn y cyfamser, mae AJ wedi diweddaru Canllawiau Cymru Gyfan i Ragnodi Cynhyrchion Heb Glwten gan gyfeirio at restr o gynhyrchion rhagnodedig Coeliac UK a gallai hyn barhau wrth symud ymlaen.

Gofynnodd Clare Constantinou (CC) sut oedd yr Alban yn ymdrin â hyn ac a oedd wedi gwneud unrhyw waith y gallwn ni ddysgu ohono yng Nghymru. Mae'r Alban yn tueddu i fod yn rhagweithiol iawn o ran clefyd seliag, er enghraifft, mae wrthi'n datblygu llwybr clinigol i gleifion sydd â chlefyd seliag, yn ogystal â chynnal cynllun rhagnodi dan arweiniad fferyllfa ganolog, sy'n cynnwys gwiriadau iechyd blynyddol i gleifion. Mae'r Alban yn debyg i Gymru am fod ganddi wasanaeth iechyd mwy canolog ac mae wedi dangos ymrwymiad hirsefydlog i ddarparu presgripsiynau cynhyrchion heb glwten fel dull angenrheidiol o gefnogi'r rhai sy'n dioddef o glefyd seliag. Cytunodd TH i siarad â chymheiriaid yn yr Alban a rhoi adborth ar sefyllfa'r Alban yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd TH wrth y grŵp fod hysbysiadau gan y Pwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferyllol (PSNC) ynghylch y rheoliadau newydd wedi arwain at rywfaint o ddryswch ymhlith fferyllwyr Cymru gan nad oedd yn egluro bod y newidiadau yn ymwneud â Lloegr yn unig. Oherwydd hyn, mae Coeliac UK wedi bod mewn cysylltiad â'r Pwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferyllol a Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW) yn gofyn iddynt egluro'r sefyllfa i'w haelodau. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru ers hynny wedi anfon

ei hesboniad ei hun at ei holl fferyllfeydd i egluro nad yw'r newidiadau yn ymwneud â Chymru.

CAM GWEITHREDU: TH i siarad â'r Arweinydd yn yr Alban ynglŷn ag ymagwedd at restr y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol yn yr Alban

**b. Y wybodaeth ddiweddaraf am beilot Rhagnodi Hywel Dda (Alison Jones)**

Rhoddodd AJ ddiweddariad ar gynllun Rhagnodi Hywel Dda, sydd bellach wedi dod i ben. Cysylltwyd â 194 o bobl yn wreiddiol ar draws naw practis cynrychioliadol o safbwynt demograffeg yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, gyda 123 yn cymryd rhan (64 y cant) yn y cynllun cerdyn atodol.

Oherwydd ei boblogrwydd, mae 104 o'r 120 (87 y cant) a gymerodd ran wedi dewis parhau â'r cerdyn nes ei fod yn dod i ben ym mis Mai. Bydd y cyfranogwyr sy'n weddill yn dychwelyd i ragnodi fel o'r blaen.  Mae holiaduron gwerthuso wedi cael eu rhoi i bob cyfranogwr yn ogystal â'r rhai a ddewisodd i beidio â chymryd rhan. Roedd un o'r prif resymau a roddwyd am beidio â chymryd rhan yn cynnwys mynediad at gymysgedd bara Juvela ac mae amheuon mai rhan o'r rheswm am hyn yw eu cost uchel. Gyda hyn mewn golwg, mae Andrew Evans (Prif Fferyllydd Cymru) wedi ysgrifennu at Juvela i ofyn iddo gynnig ei gynhyrchion i archfarchnadoedd am bris mwy rhesymol.

Ar draws y naw practis, cafwyd arbedion hyd yma o £11,000 dros y tri mis, sy'n gyfwerth â £24,000 dros y flwyddyn. Mae amcangyfrifon dros dro yn awgrymu arbedion o £250,000 os caiff ei gyflwyno ar draws y bwrdd iechyd cyfan, a gallai hyn gynyddu i gymaint â £500,000 os yw amser Meddygon Teulu yn cael ei gynnwys.

Mae hyn yn seiliedig ar gofrestru dim ond y rhai sy'n derbyn presgripsiynau ar hyn o bryd. Dewisodd oddeutu 36 y cant o'r rheiny sydd â diagnosis o glefyd seliag i beidio â chymryd presgripsiynau ac felly mae AJ wedi bod yn edrych ar effaith cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd presgripsiynau ar yr arbedion. Mae amcangyfrifon cynnar yn awgrymu hyd yn oed petai 100 y cant yn dewis derbyn presgripsiynau, bydd arbedion, er bod y rhain yn fach. Mae angen ymchwilio a modelu pellach, gan gynnwys mewnbwn gofal iechyd angenrheidiol, er mwyn deall effaith economaidd yr ymagwedd. Mae AJ yn disgwyl gallu cyflwyno'r adroddiad i'r Grŵp Trawsbleidiol a Bwrdd Gweithredol Bwrdd Iechyd Hywel Dda ym mis Mawrth.

CAM GWEITHREDU: AJ i gyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf.

**c. Cwestiynau a thrafodaeth**

Awgrymodd CC fod angen cynnwys adolygiad blynyddol fel rhan o'r dull hwn, a gofynnodd a fyddai hyn yn gweithio gyda phob demograffeg, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed. Eglurodd AJ y bydd angen presgripsiynau ar rai bob amser, a dywedodd y byddai ansawdd y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn gwella'n sylweddol ar gyfer y rheini a oedd yn dal i dderbyn presgripsiynau, oherwydd byddai ganddynt fwy o amser a chyfle i ymdrin â nhw.

Bydd AJ yn mynd trwy'r derbynebau ac mae'r rhai a gymerodd ran wedi cadw at gynhyrchion elfennol heb glwten. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn ynghylch argaeledd ac rydym wedi gweld y rhai a gymerodd rhan yn 'chwilio am y fargen orau'. Roedd y rhai oedd yn llai parod i chwilio am y fargen orau yn fwy tebygol o fynd yn ôl at bresgripsiynau.

| |
|---|
| Bydd Coeliac UK yn cynnwys diweddariad ar y cynllun yn rhifyn nesaf y cylchgrawn Crossed Grain. |
| Sioe Fwydydd Heb Glwten Cymru<br><br>**a. Adborth ar Sioe Fwydydd Heb Glwten Cymru 2018 (Tristan Humphreys)**<br><br>Rhoddodd TH ddiweddariad i'r grŵp ynghylch cynnal Sioe Fwydydd Glwten Cymru yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 8 Medi eleni.<br><br>Cymerodd 20 o arddangoswyr bwydydd heb glwten ran ar y diwrnod ochr yn ochr ag arddangosiadau coginio, clinigau dieteg un i un, trafodaeth ar ymchwil a dadl banel. Roedd bwyd heb glwten ar gael hefyd ac ardal i blant.<br><br>Mynychodd 1,404 o bobl trwy'r dydd (o'r 2,998 a gofrestrodd i fynychu - cyfradd o 53 y cant nad oeddent wedi dod) gyda mwy na 200 a gyrhaeddodd yn ystod yr awr gyntaf yn unig. Roedd 68 y cant o'r rhai a fynychodd yn bobl nad oeddent yn aelodau, a dyma oedd y sioe fwyaf a gynhaliwyd erioed gan Coeliac UK.<br><br>Roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn gyda nifer o ohebwyr yn canmol y lleoliad a ddewiswyd eleni o'i gymharu â'r llynedd. Anfonwyd arolwg adborth a ymatebwyd gan oddeutu 10 y cant o'r rhai a fynychodd, a rhoddodd 85 y cant o'r ymatebwyr sgôr o wyth allan o ddeg neu'n uwch.<br><br>Roedd sylw cadarnhaol iawn yn y cyfryngau, yn ogystal â bwletinau ar wefan y BBC, Newyddion S4C, newyddion gyda'r hwyr ITV Wales, Radio Cymru a Radio Wales.<br><br>Diolch; Hoffai Coeliac UK ddiolch i bawb a helpodd i wneud y sioe yn llwyddiant a diolch yn arbennig i'r rhai a helpodd ar y diwrnod.<br><br>• Diolch i Siân Evans ac Alison Jones am hyrwyddo'r sioe i'w rhwydweithiau.<br>• Dr Dai Lloyd AC, Dr Jill Swift, Claire Constantinou, Norma McGough a Martin Sutherland am gymryd rhan mewn dadl banel a oedd yn boblogaidd ac yn ddefnyddiol iawn.<br>• Siân Evans, Amy Bolton a Kath Singleton am gefnogi ein clinigau dieteg ar y diwrnod.<br>• Graham Phillips, Abi Moore, Brachann Davies, Sonya Sotirova, Julia Barrington, Michael Benjamin, Jan Jones, Marion Mardell a Jan ac Ian Severn am eu holl waith caled ar y diwrnod.<br>• Ian Severn am ei gefnogaeth wych ar y diwrnod ac yn ystod y paratoadau ymlaen llaw hefyd.<br><br>Mae cynlluniau i gynnal y digwyddiad eto y flwyddyn nesaf. |
| **Gwasanaethau endosgopi a gastroenteroleg yng Nghymru.**<br><br>a. Trafodaeth<br><br>Gohiriwyd hyn nes y cyfarfod nesaf. |

| **Unrhyw fater arall**<br><br>Informatica<br><br>Cyfarfu TH ac NMG â Simon Scourfield a nodwyd yr angen am astudiaeth achos. Mae Alison Jones wedi cynnig practis yn Hywel Dda.<br><br>CAM GWEITHREDU: AJ i siarad gyda rheolwr y practis<br>CAM GWEITHREDU: TH i ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf<br><br>Amseriadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol:<br><br>Cafwyd trafodaeth ynghylch amseriadau a lleoliadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae aelod wedi gofyn am gyfarfod y tu allan i Gaerdydd yn y dyfodol ac er bod hyn yn anodd, awgrymwyd y gallai telegynadledda fod yn ffordd arall o ddatrys hyn.<br><br>CAM GWEITHREDU: TH a DL i ymchwilio i opsiynau telegynadledda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. |
|---|
| Dyddiad y cyfarfod nesaf:<br>**12 Mawrth 18:00 - 20:00** |

**Pwyntiau gweithredu**

| **Camau gweithredu** | **Wedi'i neilltuo i** |
|---|---|
| Cyflwyno ymgynghoriad ar ran CISA ac adrodd yn ôl i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf | **TH** |
| Siarad â'r Arweinydd yn yr Alban ynglŷn â'r ymagwedd at restr y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol yn yr Alban. | **TH** |
| Ychwanegu trafodaeth gwasanaethau Gastroenteroleg ac Informatica i'r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. | **TH** |
| Ymchwilio i opsiynau telegynadledda ar gyfer y cyfarfod yn y dyfodol | **TH/DL** |
| Cyflwyno adroddiad ar gynllun rhagnodi Hywel Dda yn y cyfarfod nesaf | **AJ** |
| Siarad â rheolwr practis Hywel Dda ynghylch gwirfoddoli fel astudiaeth achos Informatica. | **AJ** |